

Hysbysiad Preifatrwydd Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, at ddibenion marchnata

Yr hyn y mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ei gynnwys

Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (CAFC) wedi ymrwmo i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd. Yn yr hysbysiad hwn, mae cyfeiriadau at 'ni' neu 'ein' yn golygu CAFC. Mae'r hysbysiad hwn yn egluro sut ydym yn casglu ac yn defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch at ddibenion marchnata.

Pwy ydym ni

Mae CAFC yn gwmni cofrestredig ac yn elusen gofrestrdig (Rhif Cofrestru'r Cwmni - 892851 Cymru. Rhif Cofrestru'r Elusen - 251232), a leolir ar Faes Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, Powys.

Mae CAFC yn rheolydd data dan y rheolau diogelu data ac mae'r holl fanylion cyswllt wedi'u dangos ar ddiwedd y ddogfen hon.

Gwybodaeth a gasglwn

Mae CAFC yn casglu gwybodaeth benodol amdanoch. Mae hyn yn gallu cynnwys pryd ydych yn llenwi'r ffurflen ar-lein i ymgofrestru ar gyfer ein cylchlythyr, pryd ydych yn prynu e-docynnau ar gyfer un o'n sioeau, pryd ydych yn defnyddio'r llecynnau WiFi am ddim o amgylch maes y sioe yn ystod ein digwyddiadau, pryd ydych yn dod yn aelod o'r gymdeithas neu'n cynnig yn unrhyw un o'r cystadlaethau a gynhelir yn ystod ein digwyddiadau.

Fe all y wybodaeth yma gynnwys:

1. Eich enw
2. Eich cyfeiriad e-bost
3. Eich cyfeiriad post/cod post, os yn berthnasol
4. Yr iaith sydd orau gennych (Cymraeg neu Saesneg)

Os ydych yn cytuno y cawn ni aros mewn cysylltiad ac anfon manylion a diweddariadau atoch ynghylch y gymdeithas a'n digwyddiadau, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma at ddibenion marchnata.

Sut y gallem ddefnyddio'ch gwybodaeth



Noddwr / Patron: Her Majesty The Queen
Prif Weithredwr / Chief Executive: Steve Hughson
Cadeirydd y Cyngor / Chairman of Council: David Lewis DL FRICS FLAA FRAGS

Company Registration No.: 892851 Wales Charity Registration No.: 251232 VAT No.: 134 6903 69

Os ydych chi wedi rhoi caniatâd inni i brosesu'ch gwybodaeth bersonol at ddiben marchnata, fe allem ddefnyddio'r wybodaeth yma ar gyfer nifer o ddibenion, yn cynnwys:

1. Cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddio a llywodraethu corfforaethol ac arfer da
2. Cyflawni gwasanaethau yr ydych chi wedi gofyn amdanynt – anfon cylchlythyr digidol atoch
3. Eich hysbysu ynghylch newidiadau i'n gwasanaeth
4. Eich cyflenwi â gwybodaeth ynghylch y gymdeithas a'n digwyddiadau

Os ydych chi wedi cytuno y cawn ni aros mewn cysylltiad at ddibenion marchnata, mae hyn yn rhoi inni'r hawl i ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost, a ddarparwyd gennych chi, i anfon diweddariadau ac e-byst atoch.

Cewch chi optio allan o'r cylchlythyrau digidol hyn ar unrhyw adeg trwy glicio'r ddolen 'datdanysgrifio' ar ddiwedd yr e-byst.

Cydsynio

Trwy gydsynio i'r hysbysiad preifatrwydd hwn rydych yn rhoi caniatâd inni i brosesu'ch data personol yn benodol at ddibenion marchnata. Cewch dynnu cydsyniad yn ôl neu newid eich manylion personol ar unrhyw adeg trwy ddilyn y dolenni perthnasol ar waelod yr e-byst.

Ni fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth at ddibenion marchnata os ydych chi wedi dweud nad ydych chi dymuno inni gysylltu â chi at ddibenion o'r fath. Er hynny, byddwn yn cadw'ch manylion ar restr ar wahân i helpu i sicrhau nad ydym yn dal i gysylltu â chi.

Diddordeb cyfreithlon

Os ydych chi wedi prynu e-docyn ar gyfer un o'n digwyddiadau, fe allech dderbyn e-byst gennym yn achlysurol, yn eich hysbysu o fanylion y digwyddiadau, yn rhoi gwybod ichi pan fydd yr un tocynnau, neu rai tebyg, ar gael i'w prynu yn y dyfodol ac/neu am unrhyw newidiadau i'n digwyddiadau/gwasanaethau.

Cewch optio allan o'r e-byst diddordeb cyfreithlon hyn ar unrhyw adeg trwy glicio'r ddolen 'datdanysgrifio' ar ddiwedd yr e-bost.

Gwefan

Rydym yn defnyddio cwcis ar ein gwefan i reoli gweithrediad a pherfformiad ein safle. Ffeiliau testun data bychain yw cwcis sy'n cael eu gosod ar eich cyfrifiadur pan fyddwch yn ymweld â gwefan. Mae cwcis yn helpu i wneud i wefannau weithio'n effeithlon ac yn ein cyflenwi â gwybodaeth ynghylch sut y mae ein gwefan yn cael ei defnyddio.

Datgelu gwybodaeth

Rydym yn defnyddio trydydd partïon i helpu i brosesu'r data sydd ei angen i anfon ein cylchlythyrau digidol, i werthu ein he-docynnau ac i hwyluso'r WiFi am ddim yn y digwyddiadau.

Caiff y trydydd partiön hyn eu hadnabod fel proseswyr data ac rydym yn mynnu eu bod yn cydymffurfio'n llwyr â'n cyfarwyddiadau a'r deddfau diogelu data. Rydym yn llunio contractau gyda phob un o'n proseswyr data ac yn monitro eu gweithgareddau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n polisiau a'n gweithdrefnau a bod rheolaethau priodol yn eu lle.

Efallai y bydd yn rhaid inni ddatgelu'ch gwybodaeth bersonol i drydydd partiön os ydym dan ddyletswydd i wneud hynny er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (er enghraifft i gyrff y llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith).

Mae'r llecynnau WiFi yn ein digwyddiadau yn cael eu noddi'n aml gan drydydd parti. Wrth ymgofrestru i gael at y gwasanaeth am ddim, byddwch yn cael yr opsiwn i optio i mewn i dderbyn e-byst marchnata gan CAFC, gan y noddwr, gan y ddau ohonom, neu gan yr un ohonom. Ni fydd optio allan o dderbyn e-byst marchnata gan y naill neu'r llall ohonom yn cyfyngu'ch defnydd o'r gwasanaeth.

Cadw'ch cofnodion

Rydym yn cadw'ch data personol at ddibenion marchnata dim ond am gyhyd â'ch bod yn dymuno clywed gennym neu am gyhyd ag y mae angen er mwyn cydymffurfio â rheoliadau treth a chadw cyfrifon (os yn briodol). Cewch ddatdanysgrifio o'n cyfathrebiadau marchnata trwy glicio ar y ddolen datdanysgrifio ar waelod yr e-byst.

Ble cawn storio'ch gwybodaeth

Bydd eich data personol yn cael ei storio ym mhrif swyddfa CAFC neu gydag un o'n cyflenwyr trydydd parti (ein proseswyr data) sy'n cydymffurfio â GDPR.

Trwy gyflwyno'ch data personol, rydych yn cytuno i'r storio a'r prosesu yma. Byddwn yn cymryd pob cam sy'n rhesymol angenrheidiol i sicrhau bod eich data'n cael ei drin yn ddiogel ac yn unol â rheolau'r GDPR.

Eich hawliau

Mae gennych yr hawl i:

1. I'n diweddarau ac i gael unrhyw anghywirdeb yn eich data wedi'i gywiro. Os hoffech chi ddiweddarau'r manylion a gadwn amdanoch, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda neu dewiswch y dewisiadau diweddarau fy nhanysgriadiad ar waelod ein he-byst.
2. Gofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw amdanoch. Rydym yn mynnu eich bod yn profi pwy ydych gyda dau ddarn o ddulliau adnabod sydd wedi'u cymeradwyo. Gofyn inni ddileu'ch data personol fel ei fod yn cael ei ddileu o'n cofnodion.
3. Cael y data a gadwn amdanoch wedi'i drosglwyddo i sefydliad arall.
4. Gwrthwynebu mathau penodol o brosesu megis marchnata uniongyrchol.
5. Gwrthwynebu prosesu wedi'i awtomeiddio, yn cynnwys proffilio.

Newidiadau i'r hysbysiad hwn

Fe allem ddiweddarau telerau'r hysbysiad preifatrwydd hwn os bydd angen. Gellir gweld copi ar ein gwefan ar unrhyw adeg. Os yw'r newidiadau'n arwyddocaol, byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod ichi beth ydynt.

Ymholiadau a chwynion

Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda os oes gennych unrhyw ymholiadau sy'n codi o'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Ble mae'n bosibl, codwch bob ymholiad yn ysgrifenedig os gwelwch yn dda.

Os ydych yn anfodlon gyda'n gwaith neu rywbeth yr ydym wedi'i wneud neu heb ei wneud, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig os gwelwch yn dda. Bydd CAFC yn cydnabod derbyn pob cwyn a bydd yn ymdrechu i ymchwilio i'r gŵyn cyn gynted ag sy'n rhesymol o ymarferol.

Dylid anfon pob ymholiad neu gŵyn i:

Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys. LD2 3SY

Ffôn: 01982 553683, E-bost: requests@rwas.co.uk, Gwefan: www.cafc.cymru

Cewch gwyno'n uniongyrchol hefyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn bryderus ynghylch sut ydym yn trin eich gwybodaeth bersonol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Sir Gaer, SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113 neu 01625 545745, Gwefan: www.ico.gov.uk

Diweddarwyd ym mis Mai 2018